Cyngor Meddygol Cyffredinol

Hawdd ei Ddeall

# Anhapus gyda meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia?

## Beth i'w wneud a sut i ddweud wrthym ni




# Hawdd ei ddeal




Dyma wybodaeth mewn llyfryn Hawdd ei Ddeall. Efallai na fydd yn cynnwys popeth ond bydd yn sôn am y pethau pwysig.




Mae’r fersiwn Hawdd ei Ddeall yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai y bydd rhai pobl eisiau help i’w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn print **tywyll** – gyda’r ysgrifen yn fwy trwchus a thywyll. Mae’r rhain yn eiriau pwysig yn y llyfryn.




Weithiau os bydd gair tywyll yn anodd ei ddeall, byddwn ni'n esbonio beth ydy ei ystyr.




Mae geiriau glas wedi'u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch chi glicio ar y dolenni ar ffôn, tabled neu gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn


Gwybodaeth am y llyfryn....................................................................4


Anhapus gyda meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia? Beth i'w wneud a sut i ddweud wrthym ni .....................5

Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydych chi'n anhapus.............................7

Pwy sy'n gallu helpu os allwn ni ddim ...............................................13

# Gwybodaeth am y llyfryn

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sydd wedi creu'r llyfryn yma.




Rydyn ni'n cefnogi meddygon, **cymdeithion meddygol** a **chymdeithion anaesthesia** i roi gofal da a diogel.



Mae **cymdeithion meddygol** yn rhan o'r tîm sy'n gofalu am gleifion.

Mae meddygon yn eu **goruchwylio** – felly mae meddygon yn eu helpu nhw i wneud eu gwaith yn dda.



Mae **cymdeithion anesthesia** yn rhan o'r tîm sy'n gwneud yn siŵr nad ydych chi'n teimlo poen pan fyddwch chi'n cael llawdriniaeth.

Mae **anesthetyddion** yn eu goruchwylio. **Anesthetyddion** ydy meddygon sy'n gwneud yn siŵr nad ydych chi'n teimlo poen pan fyddwch chi'n cael llawdriniaeth.

# Anhapus gyda meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia? Beth i'w wneud a sut i ddweud wrthym ni



Os ydych chi'n anhapus gyda'ch meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia, dylech chi siarad â rhywun am y mater.



Fyddwch chi ddim yn mynd i drwbl nac yn cael eich trin yn wael os byddwch chi'n dweud wrthym ni eich bod chi'n anhapus gyda meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia.




Yn y canllaw hwn, rydyn ni'n egluro beth ddylech chi ddweud wrthym ni a phwy arall sy'n gallu helpu.

# Pryd i ddweud wrthym ni eich bod chi’n anhapus



Gallwch chi ddweud wrthym ni eich bod chi'n anhapus gyda'ch meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia ar unrhyw adeg.



Gallwch chi ddweud wrthym ni eich bod chi'n anhapus â'r ffordd y mae meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn eich trin chi neu rywun arall.

# Sut mae dweud wrthym ni




Y ffordd hawsaf a chyflymaf o ddweud wrthym ni eich bod chi’n anhapus ydy llenwi'r ffurflen ar-lein yma: www.gmc-uk.org/cy/concerns/raise-a-concern




Os ydych chi eisiau help i ddweud wrthym ni pam eich bod chi'n anhapus gyda'ch meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia, ffoniwch: **0161 923 6602.**

# Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydych chi'n anhapus



Pan fyddwch chi wedi dweud wrthym ni eich bod chi'n anhapus gyda meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia, byddwn ni'n penderfynu ydy hyn yn rhywbeth y gallwn ni **ymchwilio** iddo.

Ystyr **ymchwilio** ydy edrych ar rywbeth a'i ystyried.



Os gallwn ni ymchwilio, byddwn ni'n rhoi manylion aelod o'n staff i'ch helpu ac egluro fydd yn digwydd nesaf.

## Beth gallwn ni ymchwilio iddo

Yr unig bryd y byddwn ni fel arfer yn ymchwilio ydy pan fydd meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia:




- Wedi gwneud camgymeriad difrifol, neu wedi gwneud yr un camgymeriad fwy nag unwaith.



- Ddim yn ymddwyn yn iawn tuag at glaf.

Hefyd, yr unig bryd y byddwn ni fel arfer yn ymchwilio ydy pan fydd meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia:



- Wedi bod yn dreisgar, neu wedi ymddwyn yn anghywir mewn ffordd rywiol tuag at rywun.



- Wedi gwneud rhywbeth sy'n erbyn y gyfraith.



- Yn trin pobl yn wahanol oherwydd oedran, hil, crefydd, rhywedd, rhyw neu **rywioldeb**.

  Ystyr **rhywioldeb** ydy pwy rydych chi’n ei ffansio.



- Wedi dweud celwydd.

Hefyd, yr unig bryd y byddwn ni fel arfer yn ymchwilio ydy pan fydd meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia:



- Yn rhy sâl i weithio'n iawn.



- Yn methu siarad Saesneg yn ddigon da.

# Beth fyddwn ni ddim yn ymchwilio iddo

Fyddwn ni ddim yn ymchwilio pan fydd meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia:




- Wedi gwneud camgymeriad bach.




- Yn ddigywilydd.




- Yn anghytuno gyda chi.

Fyddwn ni ddim yn ymchwilio:



- Os ydych chi'n anhapus gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.



- Os ydych chi wedi gorfod aros amser hir am eich triniaeth.





- Os dydy ysbyty neu feddygfa ddim yn lân a thaclus.

# Pa bethau allwn ddim helpu gyda nhw

Dyma rai pethau allwn ni ddim helpu gyda nhw:



- Esbonio eich triniaeth.



- Gwneud i'ch meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia dalu dirwy.




- Gwneud i'ch meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia ymddiheuro.



- Edrych ar ymchwiliad sydd wedi cael ei gynnal gan sefydliad arall.




- Gwneud i feddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia roi triniaeth arall.

# Pwy sy’n gallu helpu os allwn ni ddim



Mae'n well dechrau drwy siarad gyda'r bobl oedd yn rhan o'ch gofal neu driniaeth.




Gallwch chi siarad â'r ysbyty, y feddygfa neu'r clinig lle cawsoch chi eich gofal, i ddweud wrthyn nhw eich bod chi'n anhapus.



Os dydy hyn ddim yn helpu neu os dydych chi ddim eisiau delio â phethau fel hyn, gallwch chi ofyn am gymorth gan rai sefydliadau.



Mae gwybodaeth am y sefydliadau sy'n gallu eich cefnogi mewn gwahanol rannau o'r DU ar gael ar dudalennau nesaf y llyfryn hwn.



# Yng Nghymru

**GIG Cymru**

Gwefan:

www.llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

Os dydych chi ddim yn hapus â chanlyniad eich cwyn, gallwch chi ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eich helpu.

Gwefan: www.ombwdsmon.cymru

Ffôn: 0300 790 0203



# Yn Lloegr

**NHS England**

Gwefan: [www.england.nhs.uk/contact-us/feedback-and-complaints/complaint](www.england.nhs.uk/contact-us/feedback-and-complaints/complaint)

Os dydych chi ddim yn hapus â chanlyniad eich cwyn, gallwch chi ofyn i Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd eich helpu.

Gwefan: [www.ombudsman.org.uk](www.ombudsman.org.uk)

Ffôn: 0345 015 4033

Gallwch chi hefyd gysylltu â Healthwatch.

Gwefan: [www.healthwatch.co.uk](www.healthwatch.co.uk)

Ffôn: 03000 683 000



# Yng Ngogledd Iwerddon

**Gwasanaeth Iechyd Gogledd Iwerddon**

Gwefan:
www.nidirect.gov.uk/articles/how-complain-or-raise-concerns-about-health-services

Os dydych chi ddim hapus â chanlyniad eich cwyn, gallwch chi ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon eich helpu.

Gwefan: www.nipso.org.uk

Ffôn: 0800 343 424

Gallwch chi hefyd gysylltu â'r Cyngor Cleifion a Chleientiaid.

Gwefan: www.pcc-ni.net

Ffôn: 0800 917 0222



# Yn yr Alban

**NHS Inform**

Gwefan: www.nhsinform.scot

Ffôn: 0800 22 44 88

Os dydych chi ddim yn hapus â chanlyniad eich cwyn, gallwch chi ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban eich helpu.

Gwefan: www.spso.org.uk

Ffôn: 0800 377 7330

Gallwch chi hefyd gysylltu â Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cleifion yr Alban.

Gwefan: www.pass-scotland.org.uk

Ffôn: 0800 917 2127

Mae’r llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn ei greu gan easy-read-online.co.uk

Mae'r llyfryn yn cynnwys delweddau wedi’u trwyddedu o Photosymbols a Shutterstock.

Os oes gennych chi unrhyw gweseynau am y llyfryn hwn, cysylltwch â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.